

# DAW DIFETHA'R DDAEAR Â DIALEDD DWYFOL

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Cyflwynwch y gobaith sy'n seiliedig ar y Beibl ynglŷn â pharadwys adferedig mewn ffordd resymol. Eglurwch mai bwriad y Creawdwr cariadus yw i ddyn fwynhau bywyd ym Mharadwys a pham nad yw hyn wedi digwydd eto. Anogwch y gynulleidfa i ddysgu rhagor am fwriad Duw

## **GARDD EDEN, RHODD RASLON DUW I'R DYN GWREIDDIOL** (6 mun.)

Paratowyd y ddaear hardd mewn chwe diwrnod creu, a'i chynllunio i ddyn ei mwynhau hi (Salmau 115:16; Eiseia 45:18)

Yr uchafbwynt oedd creu mab dynol perffaith (Gen 2:7)

Mae gan ddyn, a grewyd yn ôl "delw" a "llun" Duw, gynnwddf ysbrydolrwydd, yn wahanol i'r greadigaeth anifeiliaid (Gen 1:26)

Rhaid cyflawni'r angen ysbrydol hwn er mwyn cael hapusrwydd (Mth 5:3 NW)

Wedi ffurfio dyn, rhoddodd Duw ef yng ngardd Eden

Adwaenir Gardd Eden hefyd fel "paradwys pleser," "gardd yr ARGLWYDD" (Gen 2:8 troednodyn NW; Eiseia 51:3)

[Disgrifiwch: Wedi'i dyfrhau'n dda; afon yn llifo drwyddi, yn ymrannu'n bedair fawr. Dŵr yn lân, yn bur, dim llygredd. Pob coeden "yn ddymunol i'r golwg, a da i fwyta ohoni." Rhywogaethau diddiwedd o flodau, llwyni, llystyfiant. Adar hardd, anifeiliaid hyfryd (nid rhai yn lladd), yn heddychlon rannu'u cartre' a roddwyd gan Dduw (Gen 2:9, 10; *it-1* 676-7)]

Y ddaear i fod yn gartre' tragwyddol i ddyn (Preg 1:4)

Yn gariadus darparodd y Creawdwr wraig berffaith i ddyn yn "ymgeledd" iddo (Gen 2:18, 22)

Penodwyd y pâr dynol cynta' yn warchodwyr eu cartre Baradwys ac i dderbyn bendithion cyfoethog yr hapusrwydd mwyaf (Gen 2:15)

Wrth i'r teulu dynol gynyddu, byddai'r fendith yn ymestyn drwy'r holl ddaear (Gen 1:26-28)

## **COLLI CARTRE' PARADWYS, DIFETHA'R DDAEAR YN CYCHWYN** (12 mun.)

Collwyd y ddiogelfa Baradwys oherwydd gwrthryfel

'Roedd bwyta'r ffrwyth gwaharddedig yn gyfystyr â gwrthryfel bwriadol (Gen 2:16, 17)

Gyrrwyd y pâr dynol o'u cartre' Paradwys, a'u gwahardd rhag dychwelyd byth; cerwbiaid yn gwarchod y ffordd 'nôl (Gen 3:22-24)

Eu rhwystro rhag dychwelyd a bwyta o "bren y bywyd"

"Pren y bywyd" yn arwydd o sicrwydd digyfnwid Duw ynglŷn â bywyd (*it-2* 247)

Fodd bynnag, ni newidiodd Duw ei feddwl ynglŷn â'i fwriad ar gyfer y ddaear, a dyn yn warchodwr (Eiseia 55:11)

Canlyniad dewis bod yn annibynnol ar Dduw oedd amherffeithrwydd, trais, marwolaeth (Rhuf 5:12; *dg* 14-15)

Cychwynnodd trais gyda marw Abel a ofnai Dduw (Gen 4:8-11)

Erbyn amser Noa (tua 2490 C.C.C.), llanwyd y ddaear â thrais dynion drwg ac epil 'cadarn' angylion gwyrddroedig (Gen 6:4, 5)

Defnyddiodd y Nephilim eu hanferthedd i fygyly, gan gyfrannu at y trais

'Roedd yn edifar gan y Creawdwr, Jehofah, iddo wneud dyn ac ymofidiodd oherwydd amodau llygreddig y ddaear (Gen 6:6)

Daeth y dilyw—dialedd dwyfol—â diwedd ar y rhai oedd yn difetha'r ddaear (Gen 6:11-13; *it-1* 609; *w92* 1/15 3)

Yn fuan wedyn, ail-gychwynnodd difethdod a llygredd o'r newydd gyda Nimrod, "heliwr cryf gerbron ('yn gwrthwynebu,' NW) yr ARGLWYDD" (Gen 10:8, 9)

Llygrodd Nimrod y ddaear drwy dywallt gwaed dyn ac anifail (*it-2* 503)

Adwaenid ef yn ddyn ymosodol, cododd Dŵr Babel ac ehangu maes ei ddrygioni i diriogaeth Asyria

Llygrwyd gwastadedd yr Iorddonen, er ei fod "fel gardd yr ARGLWYDD," gan ei denantiaid, trigolion (Gen 13:10; 18:20)

Unwaith eto, rhoddwyd mynegiant i ddialedd dwyfol, gyda dinistr Sodom a Gomorra (Gen 19:13; Judas 7)

Yn ddiweddarach dioddefodd y Canaaneaidd gan ddialedd dwyfol am yr un rheswm (Lef 18:24, 25)

Treisiodd Israel anffyddlon ddeddfau Duw yn ymwneud â'r Saboth a dod â difethdod i'r wlad

Llygrwyd y wlad gan foesau llwgr, eilunaddoliaeth, tywallt gwaed, ac yn y blaen

Daeth dialedd dwyfol yn 607 C.C.C. yn ffurf dinistr a chaethglud 70 mlynedd (2Cron 36:14-21)

## **MAE TENANTIAID ANNIOLCHGAR HEDDIW WEDI DIFETHA RHODD JEHOFAH** (10 mun.)

Mae dyn wedi difetha'r ddaear yn hytrach na'i darostwng hi

Wedi 6,000 o flynyddoedd o anwybyddu deddfau Duw, mae dyn yn bygwth gwneud y ddaear yn amhreswyladwy yn hytrach nag yn Baradwys lawen fel y bwriadodd Duw

Mae angen 'nawr i'r ddaear gael ei hamddiffyn rhag dyn!

Oherwydd difeddylgarwch a hunanoldeb, mae dyn wedi ymyrryd â chydbwysedd delicét natur gan achosi llifogydd andwyol, sychderau, llygredd, diflastod llwyr a marwolaeth

Dyma rai enghreifftiau: cronfeydd gwastraff gwenwynig, glaw asid, gor-bori, dadfforestu, gorddefnyddio plaladdwyr, gwastraff ymbelydrol, rhyfeloedd (*g93 1/22 3-7; g90 5/8 3-7*)

Awyr, dŵr, pridd, oll wedi'u llygru (*g92 7/22 24; g93 1/8 9-10*)

Adar, anifeiliaid, pryfed, dyn, mewn perygl (*g92 11/22 28*)

“Rydym wedi archwilio'r ddaear, ei thurio hi, ei llosgi hi, rhwygo pethau ohoni, claddu pethau ynnddi, torri'i choedwigoedd, gwastatáu ei brynïau, difwyno ei dyfroedd, a baeddu ei hawyr. Nid dyna fy niffiniad i o denant da. Petaem ni yma ar sail o fis i fis, byddem wedi cael ein troi allan ers talwm” (Rose Bird, cyn brif farnwr Llys Uchaf California)

Torcyfraith treisiol, anfoesoldeb, cyffuriau, yn golygu bod y ddaear ar fin anrhaith

Fel yn hanes Israel hen, mae dyn a chenhedloedd yn sefyll yn euog o flaen Duw o lygru'r ddaear yn foisol ac yn ysbrydol yn ogystal ag yn llythrennol (Eseia 24:5, 6)

### **SUT BYDD DIALEDD DWYFOL YN ACHUB Y DDAEAR RHAG EI DIFETHA (7 mun.)**

Mae Duw wedi addo dinistrio dynion drwg oll (Salmau 37:10; 2Thes 1:6-9)

'Dydym ni ddim yn llosgi tŷ er mwyn cael gwared o'r plâu sydd ynnddo; felly 'does dim angen dinistrio'r blaned i'w gwaredu o'i thenantiaid drwg oddi ar y ddaear

Enghreifftiau'r gorffennol yn dangos beth i'w ddisgwyl yn y dyfodol agos iawn (2Pedr 2:4-9)

Yn fuan fe fydd Jehofah yn “dinistrio'r rhai sy'n dinistrio'r ddaear” (Dat 11:18; *g93 1/22 9-11*)

Fe all rhai watwar, ond mae cyflawni hyn yn sicr (2Pedr 3:3-7)

'Fydd dynion annuwiol ddim yn goroesi'r “rhyfel ar ddydd mawr Duw” (Dat 16:13, 14, 16)

Bydd cloi Satan a'r cythreuliaid yn y pydew diwaelod yn dileu achos sylfaenol llygredd a difethod, ysbrydol a llythrennol (Dat 20:1-3)

### **ADFER CARTRE' TRAGWYDDOL DYN YN BARADWYS (10 mun.)**

Wedi i lygrwyr (gweladwy ac anweladwy) fynd, bydd goroeswyr yn gweithio mewn harmoni â rheolau ymddygiad bydysawdol y Creawdwr

Bydd yn adfer y ddaear i'w chyflwr Paradwys (Salmau 37:34; Lc 23:43; *w89 8/15 15-20; w94 4/1 6-7*)

Bydd teyrnasu'r Deyrnas yn sefydlu rhaglen adeiladu, plannu, addysgu (Salmau 22:26, 27; Dat 20:12; *re 298-9; w93 2/15 7*)

Â chanlyniadau gwrthryfel ac annibyniaeth ar Dduw wedi'u symud ymaith am byth, bydd heddwch rhwng Duw, dyn, ac anifail (Eseia 11:6-9; Salmau 37:11; 46:9)

Fe adferir ecosystem perffaith Duw

Yna fe rydd y ddaear ei digonedd

Bydd yr holl greadigaeth yn moliannu Jehofah drwy gydol tragwyddoldeb (Salmau 37:29; 150:6)

(Glynweh yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)